

# Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom	Marc Wyn Jones Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2023	0300 200 6565
Amser: 09.30	<a href="mailto:SeneddHinsawdd@senedd.cymru">SeneddHinsawdd@senedd.cymru</a>

---

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

Briffio gan Gynghorydd Arbenigol

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30–11.40)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon, a datgan buddiannau

(09.30)

### 2 Bil Seilwaith (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

(09.30–10.30)

(Tudalennau 1 – 72)

Lisa Phillips, Uwch-gynghorwr Arbenigol, Tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr – Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhian Jardine, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Gwasanaethau Morol – Cyfoeth Naturiol Cymru

Dr David Clubb – Cadeirydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

Steve Brooks – Aelod o'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

#### Dogfennau atodol:

Y Bil Seilwaith – crynodeb o'r Bil

Bil Seilwaith (Cymru) – crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Bil Seilwaith (Cymru) – cwestiynau posibl

Papur – Cyfoeth Naturiol Cymru

Papur – Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (Saesneg yn unig)



**Egwyl** (10.30–10.40)

**3 Bil Seilwaith (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth gyda grwpiau cymunedol a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru**  
(10.40–11.40) (Tudalennau 73 – 87)

James Davies, Prif Weithredwr – Cymorth Cynllunio Cymru

Dr Roisin Willmott, Cyfarwyddwr – Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

**Dogfennau atodol:**

Papur – Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

Papur – Cymorth Cynllunio Cymru (Saesneg yn unig)

**4 Papurau i'w nodi** (11.40)

**4.1 Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–23**

(Tudalennau 88 – 133)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022–23

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r adroddiad ar Cyfoeth Naturiol Cymru – Craffu Blynyddol 2022–23

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r adroddiad ar Cyfoeth Naturiol Cymru – Craffu Blynyddol 2022–23 (Atodiad 1) (Saesneg yn unig)

**4.2 Trafnidiaeth Cymru – Caffael Cerbydau Rheilffyrdd**

(Tudalennau 134 – 143)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a

Seilwaith ar Gaffael Cerbydau Rheilffyrdd gan Drafnidiaeth Cymru  
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth  
Gyhoeddus at Trafnidiaeth Cymru ar Gaffael Cerbydau Rheilffyrdd gan  
Drafnidiaeth Cymru

Ymateb gan Trafnidiaeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

#### **4.3 Amserlen y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024–25**

(Tudalennau 144 – 146)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth  
Leol ynghylch Amserlen y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024–25

#### **4.4 Craffu blynyddol ar weithrediad camau interim ar gyfer diogelu'r amgylchedd**

(Tudalennau 147 – 153)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y corff Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) mewn  
perthynas â chraffu blynyddol ar weithrediad camau diogelu'r amgylchedd  
interim (Saesneg yn unig)

Llythyr gan y Cadeirydd at y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) mewn  
perthynas â chraffu blynyddol ar weithrediad camau diogelu'r amgylchedd  
interim (Saesneg yn unig)

Ymateb gan y corff Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) mewn perthynas â  
chraffu blynyddol ar weithrediad camau diogelu'r amgylchedd interim  
(Saesneg yn unig)

Ymateb gan y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) mewn perthynas â  
chraffu blynyddol ar weithrediad camau diogelu'r amgylchedd interim  
(Saesneg yn unig)

#### **4.5 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**

(Tudalen 154)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch Deddf Treth  
Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 – 6 Gorffennaf 2023

#### **4.6 Gwasanaethau bysiau**

(Tudalennau 155 – 162)

##### **Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â gwasanaethau bysiau

#### **4.7 Safle glo brig Ffos-y-Fran**

(Tudalennau 163 – 168)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â gwaith glo brig Ffos-y-Fran ym Merthyr Tudful

Ymateb gan Gweinidog Newid Hinsawdd at y gan y Cadeirydd mewn perthynas â gwaith glo brig Ffos-y-Fran ym Merthyr Tudful

#### **4.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 169 – 171)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Randdeiliaid mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

#### **4.9 Datganiad Deddfwriaethol – Llywodraethu amgylcheddol**

(Tudalennau 172 – 173)

##### **Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Prif Weinidog i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynghylch y Datganiad Deddfwriaethol

#### **4.10 Claddu Cebblau Trawsyrru Trydan**

(Tudalennau 174 – 181)

##### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Jonathan Edwards AS at y Cadeirydd mewn perthynas â Chladdu Cebblau Trawsyrru Trydan (Saesneg yn unig)

Llythyr gan A. Thomas Plant Hire Ltd at y Cadeirydd mewn perthynas â Chladdu Cebblau Trawsyrru Trydan (Saesneg yn unig)

Llythyr agored gan Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau,

at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net mewn perthynas â llinellau trydan newydd (Saesneg yn unig)

- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**  
(11.40)

**Cyfarfod preifat (11.40–12.10)**

- 6 Bil Seilwaith (Cymru) – Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2 ac eitem 3**

- 7 Trafod y Memorandwm (4) Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 182 – 200)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol (Saesneg yn unig)

- 8 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor**

(Tudalennau 201 – 205)

**Dogfennau atodol:**

Papur – Blaenraglen waith (Saesneg yn unig)

- 9 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – Trefn ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2**

(Tudalennau 206 – 207)

**Dogfennau atodol:**

Papur – Cyfnod 2 – trefn ystyried (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



## Infrastructure 33, Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

### Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Bil Seilwaith (Cymru) | Infrastructure (Wales) Bill

Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru | Evidence from Natural Resources Wales

## Egwyddorion Cyffredinol

### **Beth yw eich barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac a oes angen deddfwriaeth i wireddu'r bwriad polisi datganedig?**

Gan nad oes cyfle yn y ffurf hon, rydym yn cynnwys yma adran ragarweiniol cyn mynd ymlaen i ymateb yn benodol i'r cwestiwn a ofynnir. Rydym wedi bod yn cynnal deialog â Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag agweddau penodol ar y Bil, yn enwedig mewn perthynas â'r broses trwydded forol dybiedig. Rydym yn croesawu'n fawr yr ymgysylltu hyd yma a byddem yn gobeithio parhau i ymgysylltu'n amserol wrth i'r Bil, yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau gael eu datblygu.

Yn ogystal, deallir y bydd datganiadau o fwriad polisi i gefnogi'r Bil yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd toriad haf y Senedd, a all roi rhagor o fanylion am brosiectau seilwaith arwyddocaol gorfodol a dewisol. Byddem yn croesawu'r cyfle i adolygu gwybodaeth ychwanegol o'r fath a darparu sylwadau pellach yn ôl yr angen i lywio'r gwaith o graffu ar y Bil drafft. Yn yr un modd, edrychwn ymlaen at gyfrannu at baratoi is-ddeddfwriaeth ac ymateb i ymgynghoriadau yn y dyfodol ar unrhyw reoliadau drafft.

Rydym wedi darparu ymateb manwl i'r cwestiynau perthnasol a amlinellir yn y ffurflen. I grynhoi, mae'r pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r Bil fel a ganlyn:

- Mae natur fframwaith y Bil yn ei gwneud yn heriol adolygu a deall y goblygiadau llawn i swyddogaethau statudol CNC. Er ein bod yn deall ac yn cefnogi'r angen am hyblygrwydd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau anfwriadol yn cael eu lleihau, rydym o'r farn bod deialog barhaus bellach gydag CNC a Llywodraeth Cymru yn hanfodol.
- Mae cynnwys trwydded forol dybiedig fel rhan o'r Bil yn gosod dyletswyddau gwahanol ar CNC. Er nad ydym yn gwrthwynebu cynnwys

trwydded forol dybiedig, rydym yn ystyried, fodd bynnag, ei bod yn hollbwysig bod y ddeddfwriaeth eilaidd a'r canllawiau yn caniatáu ar gyfer gwaith asesu cadarn (gweler ein hymateb i 2vi).

- Mae adran 81 yn caniatáu creu rheoliadau i amlinellu cydsyniadau penodol y gellir eu hystyried neu eu dileu gyda chydsyniad y rheoleiddiwr. Rydym yn cefnogi ac yn annog olrhain ceisiadau am hawlenni a thrwyddedau yn gyfochrog, ond mae angen ystyried yn ofalus y potensial i ddileu neu ystyried caniatadau i osgoi canlyniadau anfwriadol (gweler ein hymateb i 2vi).
- Rydym yn croesawu'n fawr y ddarpariaeth o dan adran 121 i alluogi rheoliadau i nodi'r ffoedd a godir gan awdurdodau cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth a darparu gwasanaeth mewn perthynas â chydsyniad seilwaith. Mae'n hanfodol i ymgynghoreion statudol gael yr adnoddau priodol i ymateb i'r ceisiadau hyn ac mae codi ffoedd yn elfen hollbwysig o sicrhau adnoddau digonol. Mae sicrhau bod cynlluniau codi tâl ymgynghoreion statudol priodol yn cael eu creu yn rhan hollbwysig o hyn (gweler ein hymateb i 2viii).

Mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym yn cytuno'n fras bod angen deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r bwriadau polisi fel y'u hamlinellwyd ac y bydd y Bil fel y'i drafftwyd yn bodloni'r bwriadau hynny. Fodd bynnag, o ystyried lefel y manylion sydd ar gael yn y Bil, mae'n anodd rhoi barn derfynol ynghylch a fydd y Bil yn cyflawni bwriad y polisi. Byddem yn croesawu deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r Bil, offerynnau statudol a chanllawiau ddatblygu i'n galluogi i barhau i gynghori er mwyn sicrhau y gall y Bil gyflawni bwriad y polisi.

Mae gennym sylwadau penodol i'w gwneud ar yr egwyddorion canlynol:

Cysondeb a dryswch: Rydym yn cytuno y bydd y Bil yn galluogi datblygwyr a'r cyhoedd i ymgysylltu â phroses gyson ar gyfer meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig ac a restrir yn y Bil.

Sicrwydd: Mae'r Bil yn caniatáu cyfnod archwilio clir o 52 wythnos gyda'r gallu i'w ymestyn, sydd rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi, yn enwedig ar gyfer prosiectau newydd. Er bod y cyfnod archwilio'n glir, mae potensial i naill ai'r cyfnod cyn ymgeisio, neu ar ôl cael caniatâd, gael ei ymestyn, ac efallai na fydd hyn yn arwain at amserlenni manwl gywir o'r dechrau i'r diwedd. Gall amserlen glir hefyd arwain at ganlyniad i wrthod ceisiadau pe bai'r cyfnod archwilio yn caniatáu i gydsyniad gael ei roi o fewn yr amser hwnnw.

Ansawdd ceisiadau: Rydym yn croesawu cryfhau'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, ond rydym yn pwysleisio bod hyn yn dibynnu ar yr adnoddau priodol ar

gyfer ymgynghoreion i gefnogi'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, a'r angen i roi gwybod i ymgeiswyr am ddilyn y cyngor cyn ymgeisio a ddarperir.

Siawns o lwyddiant: Darperir ar gyfer fframwaith polisi yn y Bil.

Cymhlethdod: Mewn rhai achosion, megis datgymhwyso'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, bydd llai o gymhlethdod. Mae gennym hefyd bryderon sylweddol mewn perthynas â'r potensial i ddileu'r angen am ganiatâd ehangach o dan adran 81 o'r Bil neu i'w ystyried. Er y gallai hyn leihau cymhlethdod, heb ystyried yn ofalus pa gydsyniadau y gallai hyn fod yn berthnasol iddynt a'r gweithdrefnau cysylltiedig, gallai hyn leihau lefel yr amddiffyniad a roddir gan y cydsyniadau hyn. Rydym yn deall y bydd hyn yn amodol ar isddeddfwriaeth a byddem yn croesawu ymgysylltiad cynnar i ddeall y goblygiadau posibl.

## **Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl adrannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?**

### **Rhan 1 - Prosiectau seilwaith arwyddocaol**

Croesewir nodi prosiectau seilwaith arwyddocaol gorfodol o fewn Rhan 1 o'r Ddeddf gan ei fod yn rhoi sicrwydd ynghylch pa brosiectau sy'n dod o fewn y drefn newydd ar gyfer rhoi cydsyniadau seilwaith. Mae'r manteision effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â gallu ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau seilwaith arwyddocaol drwy reoliadau (adran 17) mewn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth y DU a newidiadau technolegol mewn diwydiant, yn enwedig yn gysylltiedig â datgarboneiddio, hefyd yn cael eu croesawu, a'u cydnabod.

Fodd bynnag, mae gennym sylwadau penodol yn ymwneud â manylion drafftio rhai prosiectau seilwaith arwyddocaol gorfodol.

Yn Rhan 1, mae'r ardal forol wedi'i rhestru'n benodol mewn perthynas ag adrannau penodol – er enghraifft, adran 2 mewn perthynas â seilwaith trydan – ond nid mewn eraill – er enghraifft, adran 7 ar briffyrdd. Mae'n bosibl y bydd rhai achosion lle byddai angen trwydded forol ar gyfer prosiectau priffyrdd lle caiff pont ei hadeiladu dros ardal tua'r môr o benllanw cymedrig y gorllanw. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym yn argymhell y dylid cyfeirio at ardal forol Cymru ym mhob adran berthnasol ac rydym yn hapus i roi cyngor pellach ar hyn yn ôl yr angen.

Nodwn y gall rhai trothwyon fod yn gymhleth i'w pennu megis adran 10, "Cyfleusterau Harbwr". Er mwyn helpu i gymhwyso'r trothwyon yn y dyfodol,

byddem yn annog datblygu canllawiau cysylltiedig i gefnogi gweithredu'n ddiweddarach.

Mae adran 18 yn rhoi eglurder ar brosiectau trawsffiniol mewn perthynas ag ardal forol Cymru. Nodwn fod y memorandwm esboniadol yn cyfeirio at “barth Cymru” ac nid “ardal forol Cymru”. Byddem yn argymhell, er eglurder, y dylid cyfeirio yn y memorandwm esboniadol nad yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol o fewn rhanbarth môr mawr Cymru (y tu hwnt i ddeuddeg milltir forol).

Croesewir cadarnhad y bydd prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol yn cael eu hychwanegu drwy reoliadau sy'n diwygio Rhan 1. Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol arfaethedig ar gyfer gwneud yr is-ddeddfwriaeth hon yn briodol er mwyn caniatáu ar gyfer rhywfaint o graffu ychwanegol gan y Senedd.

Fel rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol ar y broses arfaethedig ar gyfer rhoi cydsyniadau seilwaith yn 2018, gwnaethom argymhell alinio'r trothwy dewisol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr â'r trothwy a gynigir ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (h.y. lle mae'r capasiti gosodedig rhwng 10MW a 50MW). Byddai hyn yn helpu i gyflawni'r uchelgais o gysoni lle mae technolegau yn pontio ardaloedd y tir a'r môr. Nodir nad yw'r argymhelliad hwn wedi'i symud ymlaen, gyda'r trothwy ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y môr yn aros fel 1MW i 50MW (gweler Atodiad 3 o'r Memorandwm Esboniadol). Er ein bod yn nodi y gallai hyn fod oherwydd y gofyniad i'r datblygiadau hyn hefyd gael cydsyniad adran 36 (o dan Ddeddf Trydan 1989) gan Weinidogion Cymru, mae serch hynny yn creu anghysondeb rhwng yr hyn sy'n berthnasol ar y tir ac ar y môr.

Yn yr un modd, mae'r trothwy ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol ar gyfer cyfleusterau harbwr yn parhau i gyfeirio at gyfleusterau sy'n cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd (h.y. mae angen asesiad o'r effaith amgylcheddol), er gwaethaf ein hargymhelliad blaenorol y dylid defnyddio dulliau mesuradwy eraill i bennu'r trothwy dewisol. Ein barn ni o hyd yw bod gormod o le i ddehongli'r trothwy dewisol fel y'i drafftwyd ac y gallai fod yn agored i'w herio, yn enwedig os daw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol i'r amlwg yn ddiweddarach ym mhroses ymgeisio prosiect ac mae hynny'n pennu trothwy mwy rhifol / y gellir ei gyfrifo.

Argymhellir felly bod y trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu alltraeth a phorthladdoedd/harbyrau yn cael eu hailystyried pan fydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu.

Deallir y bydd datganiadau o fwriad polisi i gefnogi'r Bil yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd toriad haf y Senedd, a all roi rhagor o fanylion am brosiectau seilwaith arwyddocaol gorfodol a dewisol. Byddem yn croesawu'r cyfle i adolygu gwybodaeth ychwanegol o'r fath a darparu sylwadau pellach yn ôl yr angen i lywio'r gwaith o graffu ar y Bil drafft. Yn yr un modd, edrychwn ymlaen at gyfrannu at baratoi is-ddeddfwriaeth ac ymateb i ymgynghoriadau yn y dyfodol ar unrhyw reoliadau drafft.

## **Rhan 2 - Gofyniad am gydsyniad seilwaith**

Rydym yn croesawu'r datganiad clir, pe bai angen cydsyniad seilwaith ar brosiect, nad yw rhai cydsyniadau penodol, megis adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 neu adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, yn berthnasol.

Nodwn ddileu'r angen am awdurdodiad (adran 20(c) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei warchod yn briodol, rydym am sicrhau bod y cynghorwyr hanesyddol priodol (Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru berthnasol) yn cael eu rhestru fel ymgynghoreion statudol yn y broses.

Fel y nodir yn 2.i), rhagwelir y bydd prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol yn cael eu hychwanegu trwy reoliadau o dan adran 17. Mae'n bosibl y bydd dryswch yn codi ynghylch y drefn gydsynio briodol ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol dewisol, sydd â goblygiadau penodol i brosiectau sydd â chaniatadau tybiedig cysylltiedig neu rai sydd wedi'u datgymhwyso/dileu. Felly, dylai'r rheoliadau roi cymaint o eglurder a sicrwydd â phosibl ar y mater hwn, ac efallai y bydd angen canllawiau gweithdrefnol pellach hefyd i nodi sut mae datblygwyr yn cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yn cadarnhau bod eu prosiect o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'n hanfodol y gellir cael cyfeiriad o'r fath ar ddechrau'r broses i roi sicrwydd i ddatblygwyr, cyrff cyhoeddus a chymunedau o'r cychwyn cyntaf ac osgoi unrhyw waith ofer yn ddiweddarach. Dylai penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a yw prosiect seilwaith arwyddocaol dewisol o arwyddocâd cenedlaethol hefyd fod yn seiliedig ar feini prawf clir a chyson i sicrhau bod cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn gyson ar gyfer mathau tebyg o brosiectau. Dylai pob parti ddisgwyl lefel resymol o sicrwydd ynghylch pa drefn gydsynio sy'n briodol ar gyfer ystyried unrhyw brosiect seilwaith penodol.

## **Rhan 3 - Gwneud cais am gydsyniad seilwaith**

Bydd adran 30(2)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i "berson", y tybir ei fod yn cynnwys CNC, "gyhoeddi adroddiad am ei gydymffurfedd ag unrhyw ofynion ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghori a chyhoedduswydd cyn ymgeisio" fel y nodir

mewn rheoliadau. Er y cydnabyddir y bydd manylion yr adroddiad cyn-ymgeisio hwn yn cael eu darparu drwy reoliadau, mae'n bwysig bod unrhyw ofynion o'r un natur a graddfa â'r rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer y drefn bresennol ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ofynion ychwanegol wedi cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r Bil drafft.

Yn ogystal â'r uchod, byddai'n fuddiol cael eglurhad ynghylch arwyddocâd y term "person" a ddefnyddir yn adran 30(2)(e) mewn perthynas ag adroddiad cyn-ymgeisio o'i gymharu â defnyddio'r term "awdurdod cyhoeddus" yn adran 126(4)(c) mewn perthynas ag adroddiad ymgynghori statudol. Tybir y gallai'r ddau gymhwyso'r gofyniad i gynhyrchu adroddiadau ymgynghori i CNC, ond nid yw arwyddocâd y defnydd o dermau gwahanol yn glir. At hynny, gellid dehongli'r defnydd o'r term "cydymffurfedd person" yn adran 30(2)(e) fel paratoi a chyhoeddi adroddiad ar gydymffurfedd yr ymgeisydd â gofynion ymgynghori a chyhoedduswyd cyn ymgeisio, ond na ddeallir mai dyna'r bwriad. Argymhellir felly bod y geiriad drafft yn yr adran hon o'r Bil yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn ddigon clir i fodloni ei fwriad cyfreithiol.

Mae adran 36 yn amlinellu dyletswyddau newydd ar gyfer CNC o ran cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Forol. Rydym wedi bod mewn deialog â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cwmpas, cynnwys, a gweithdrefnau cysylltiedig, ac i ba raddau y bwriedir i CNC ymgynghori â chyrrff eraill i wneud hynny.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu ag CNC i sicrhau bod y broses ar gyfer yr Adroddiad ar yr Effaith Forol yn briodol ac i sicrhau bod y prosiectau yn ardal forol Cymru yn parhau i gael eu hasesu'n gadarn, gan gynnwys rhyngweithiadau prosiect morol â'r parthau arfordirol a daearol. Mae angen i unrhyw weithdrefnau a ddatblygir gan is-reoliadau neu ganllawiau sicrhau y gellir darparu cyngor o fewn cylch gwaith cynghori CNC, a chynghor o safbwynt rheoleiddio, yn ogystal â sicrhau mecanweithiau adennill costau priodol (gweler ein hymateb i 2.viii)).

Mae gennym bryderon sylweddol bod yr Adroddiad ar yr Effaith Forol yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi cyngor ar archaeoleg forol. Er ein bod yn ystyried yr effeithiau ar archaeoleg forol ym mhroses trwyddedu morol CNC, ochr yn ochr ag ystod eang o effeithiau eraill, gan gynnwys yr amgylchedd, mordwyo a defnyddwyr eraill y môr, nid oes gan CNC gylch gwaith, na'r arbenigedd, i ddarparu cyngor technegol ar archaeoleg forol.

Wrth benderfynu ar drwydded forol, byddai CNC yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, CNC, yr awdurdod archaeolegol perthnasol, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Ystad y Goron a'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Yn gwneud cais am Drwydded Forol?](#) Er nad yw cynnwys manwl yr Adroddiad ar yr Effaith Forol yn hysbys eto, ni fyddem yn rhagweld cynnal ymgynghoriad ar ran y broses a hoffem sicrhau bod y Cyrff hyn yn parhau i fod yn ymgynghorai fel rhan o ddatblygiadau yn yr ardal forol.

Rydym yn croesawu'r gofyniad am ymgynghoriad cyn ymgeisio yn adran 30. Byddem yn disgwyl i CNC gael ei gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol fel "person yr ymgynghorir ag ef". Rydym yn cydnabod manteision ymgysylltu cynnar i sicrhau ansawdd ceisiadau a archwilir gan y broses newydd, a byddai unrhyw gyfleoedd i gryfhau hyn yn cael eu croesawu.

Fodd bynnag, byddai angen yr adnoddau ar CNC i ymateb fel ymgynghorai statudol trwy gynllun codi tâl addas neu gymorth grant (gweler hefyd ein hymateb i 2.viii)).

Ar gyfer prosiectau a fyddai fel arfer angen trwydded forol, y rheoliadau perthnasol ar gyfer asesu'r effeithiau amgylcheddol fyddai Rheoliadau Gwaith Morol 2007 fel y'u diwygiwyd. Cyn i'r drefn newydd dderbyn ceisiadau, bydd yn allweddol i bob parti ddeall pa rai yw'r rheoliadau asesu'r effeithiau amgylcheddol perthnasol ar gyfer y rheini sydd i'w penderfynu o dan y Bil Seilwaith (Cymru). Gall canllawiau atodol fod o gymorth yma.

#### **Rhan 4 - Archwilio ceisiadau**

Rydym yn nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau morol gael eu hystyried yn rhan o'r system gynllunio ehangach, lle gallai fod profiad cyfyngedig ar hyn o bryd. Mae angen sgiliau ac arbenigedd penodol i ystyried ceisiadau morol. Yn ein barn ni, wrth benodi awdurdod archwilio, byddai angen sicrhau ei fod yn gallu darparu asesiad cadarn o geisiadau morol.

Mae'r weithdrefn archwilio yn debyg i'r drefn sefydledig ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol neu'r drefn yn y DU ar gyfer gorchymyn cydsyniad datblygu. Gall hyn fod yn hynod o ddwys o ran adnoddau i bawb dan sylw. Mae'n hanfodol sicrhau bod gan ymgynghoreion y broses ddigon o adnoddau, naill ai drwy drefn codi tâl hyblyg neu gymorth grant (gweler ein hymateb i 2.viii)) a bod cyfnodau amser rhesymol yn cael eu caniatáu ar gyfer cyflwyno'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddem yn croesawu trafodaeth barhaus gyda Llywodraeth Cymru ar hyn wrth i'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth gael eu datblygu.

O ystyried y potensial i ddatblygiadau hynod dechnegol neu newydd gael eu hystyried fel rhan o'r prosiect seilwaith arwyddocaol, rydym yn croesawu'r gallu o fewn y ddeddfwriaeth i benodi "aseswyr" yn adran 47. Er enghraifft, yn y broses trwydded forol bresennol, rydym yn defnyddio contractwyr neu Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) i weld a yw deunydd yn bodloni gofynion OSPAR ar gyfer gwaredu gwaddod yn y môr.

## **Rhan 5 - Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith**

---

Rydym yn croesawu gofyniad clir i ystyried yr Adroddiad ar yr Effaith Forol, yr archwiliad, a materion eraill fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau perthnasol.

Nodwn fod y cyfnod archwilio wedi'i osod i 52 wythnos ac mae'n cynnwys y gallu i ganiatáu estyniad. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer archwilio, gan gynnwys amserlenni ymgynghori priodol, yn hollbwysig i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu hasesu'n gadarn ac yn gymesur. Rydym yn cefnogi'r gallu i ymestyn y broses archwilio.

Rydym yn nodi bod adran 53(1) yn nodi fel a ganlyn: "Rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) benderfynu ar bob cais am gydsyniad seilwaith yn unol â—

...(c) unrhyw gynllun morol (o fewn ystyr adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (t. 23)) a baratowyd ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef."

Byddem yn holi a ddylai hyn, er cysondeb, ymwneud â "dogfennau polisi morol priodol" fel y'u diffinnir gan adran 59 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Yn ogystal, mewn perthynas ag adran 53(2)(b) – "Os oes unrhyw anghydnawsedd rhwng darpariaeth mewn datganiad polisi perthnasol a darpariaeth mewn cynllun morol, rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r datganiad polisi perthnasol" – hoffem ddeall y rhesymeg pam y rhoddir blaenoriaeth i'r datganiadau polisi.

## **Rhan 6 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith**

---

O ran adran 74, mewn perthynas ag awdurdodi gweithrediad gorsaf gynhyrchu, dymunwn gael sicrwydd bod hyn mewn perthynas â chynhyrchu trydan ac nid, er enghraifft, mewn perthynas â gweithredu gorsaf gynhyrchu drwy drwydded o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.



---

Mae adran 80 yn caniatáu ar gyfer trwyddedau morol tybiedig. Rydym wedi bod mewn deialog gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys hyn ac rydym yn croesawu'n fawr yr ymgysylltu hyd yma. Nid ydym yn gwrthwynebu'r gallu i ystyried trwydded forol fel rhan o'r cydsyniad, ond mae'n hollbwysig bod yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau yn caniatáu asesiad cadarn.

Rydym hefyd yn nodi bod isadran 80(2) yn caniatáu ar gyfer ffurfio barn ynghylch trwydded forol, yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y gorchymyn seilwaith ac amodau a bennir yn y drwydded forol dybiedig. Er mwyn sicrhau bod eglurder a chysondeb, bydd angen datblygu canllawiau yn y dyfodol i helpu i ddrafftio'r gorchymyn cydsyniad er mwyn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys yn y gorchymyn ei hun, a'r drwydded forol dybiedig, a chysondeb rhwng y ddau gydsyniad.

Ac eithrio trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, rydym yn nodi'r potensial i reoliadau o dan adran 81 gynnwys cydsyniadau a allai gynnwys swyddogaethau rheoleiddio eraill CNC. Mae'n amhosibl darparu sylwadau manwl yn absenoldeb rhestr ddiffiniol o ddarpariaethau statudol neu ddatganiad o fwriad polisi ynghylch y pŵer hwn. Fodd bynnag, rydym yn gwneud y sylwadau cyffredinol canlynol.

Rydym yn cefnogi ac yn annog olrhain ceisiadau am drwyddedau yn gyfochrog, ond mae angen ystyried y posibilrwydd o ddatgymhwyso neu ffurfio barn ar ganiatadau yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Rydym yn ystyried datblygu a nodi cydsyniadau penodedig yn ofalus iawn er mwyn sicrhau broses gadarn o asesu a rheoli risgiau amgylcheddol. Mewn llawer o achosion, byddai angen i'r awdurdod perthnasol wneud asesiad sy'n cyfateb i benderfynu ar y cydsyniad hwnnw er mwyn penderfynu a fyddai'r gofynion a nodir yn y gorchymyn yn ddigon i beidio â bod angen y cydsyniad perthnasol. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud heb dderbyn y ffi briodol am gydsyniad o'r fath, a thu allan i'r amserlenni a bennir fel arfer i benderfynu ar y cydsyniad hwnnw, gan arwain at gollu incwm a gostyngiad posibl mewn amddiffyniad amgylcheddol neu amddiffyniad arall. Rydym yn nodi y bydd angen ystyried hyn mewn Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol dilynol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth.

Mae CNC yn gyfrifol am dros ddeugain o wahanol gyfundrefnau rheoleiddio ar draws ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys y rhai o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, megis diwydiant mawr, y diwydiant gwastraff, gollyngiadau ansawdd dŵr, gweithgareddau perygl llifogydd, trwyddedau morol, torri coed, trwyddedau rhywogaethau, cydsyniadau, a chydsyniadau mewn perthynas â safleoedd dynodedig, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yng nghyd-destun y trwyddedau sydd eu hangen ar gyfer unrhyw ddatblygiad, efallai y bydd angen caniatâd yn ystod camau cynnar y

datblygiad – er enghraifft, y rhai sy'n berthnasol i glirio tir a gweithgareddau yn ystod y gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Gall datblygu gweithredol gyfeirio at y prosiect trwy gydol ei oes neu weithredu datblygiad mewn adeiledd sydd eisoes wedi'i adeiladu.

Ar gyfer cydsyniadau penodol nad ydynt yn y pen draw wedi'u cynnwys, byddai datblygu polisi i ddarparu cyfle i gryfhau'r gofynion ar gyfer olrhain cyfochrog rhwng ceisiadau o fudd. Byddai datganiad o fwriad ar gyfer adran 81 o'r Bil yn cael ei groesawu a byddem yn croesawu deialog yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru wrth i'r is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu.

Yn adran 80(5), rydym yn croesawu eglurhad y gall cydsyniad tybiedig ar gyfer trwydded forol gael ei amrywio, ei atal, neu ei ddirymu yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Yn y dyfodol, byddem yn croesawu rhagor o ddeialog gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amrywiadau i sicrhau, er enghraifft, nad yw unrhyw amrywiad dilynol i drwydded forol yn tanseilio cwmpas y prosiect a aseswyd neu yr ystyrir ei fod yn newid sylweddol i'r cydsyniad seilwaith ehangach, a sut byddai'r weithdrefn hon yn gweithio, gan gynnwys adnoddau a ffioedd cysylltiedig.

Mae adran 84 yn caniatáu ar gyfer y gallu i gywiro gwallau o fewn y gorchymyn cydsyniad seilwaith. Nid yw hyn yn cynnwys cydsyniad tybiedig, a fyddai, o'i gyhoeddi, yn dychwelyd i gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol. Yn achos trwyddedau morol, byddai angen i CNC wedyn gymryd amrywiad a arweinir gan CNC nad yw'n destun ffioedd o dan y ddeddfwriaeth berthnasol (Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd) (Cymru) 2017). Byddai'r system arfaethedig yn atal CNC rhag adennill costau ar gyfer cywiro camgymeriadau na wnaed gan CNC. Byddem yn argymhell bod y pŵer hwn hefyd yn cael ei ymestyn i unrhyw gydsyniad tybiedig, gan gynnwys trwydded forol dybiedig.

## **Rhan 7 - Gorfodi**

---

Er bod gan CNC rôl i'w chwarae wrth gyflawni amodau, y disgwyliwn iddi barhau â thrwyddedau morol tybiedig, nid oes gan CNC bwerau gorfodi mewn perthynas â thrwyddedau morol, lle mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r swyddogaeth orfodi. Fel y cyfryw, rydym yn nodi bod gallu Gweinidogion Cymru i benodi personau ar gyfer gwaith gorfodi morol (adran 107) wedi'i gynnwys a byddem yn rhagweld mai Llywodraeth Cymru, sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer trwyddedau morol ar hyn o bryd, a fydd yn parhau i wneud hynny.

Deallwn fod adran 107 yn ymwneud â rheoleiddio o dan y corff cydsyniad seilwaith, yn hytrach na'r drwydded forol dybiedig, ac fel y nodwyd yn ein

hymateb i gwestiwn 2.vi), rydym yn argymhell bod eglurder ynghylch yr hyn y dylid ei leoli yng nghorff y cydsyniad, a pha amodau neu ofynion ddylai fod o fewn y drwydded forol dybiedig.

Mae'n hanfodol bod unrhyw gamau gorfodi a rheoleiddio parhaus yn erbyn risg bosibl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r is-reoliadau sy'n ymwneud â hawlenni neu drwyddedau i'w dileu neu roi barn arnynt. Ar gyfer caniatadau tybiedig, mae'n hanfodol, o leiaf, fod yr offer a phwerau rheoleiddio presennol ar gyfer cydymffurfio a gorfodi yn cael eu cynnal. Bydd sicrhau bod y rheoleiddiwr perthnasol yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses yn allweddol.

## **Rhan 8 - Swyddogaethau atodol**

Mae croeso cynnes i'r ddarpariaeth o dan adran 121 i alluogi rheoliadau i nodi'r ffioedd a godir gan awdurdodau cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth a darparu gwasanaeth mewn perthynas â chydsyniad seilwaith. Mae'n hanfodol i ymgynghoreion statudol gael yr adnoddau priodol i ymateb i'r ceisiadau hyn ac mae codi ffioedd yn rhan o sicrhau adnoddau digonol.

Byddai CNC yn disgwyl cael ei gynnwys fel un o'r awdurdodau cyhoeddus penodedig a cheisio sicrhau adennill costau llawn ar gyfer unrhyw swyddogaeth/gwasanaeth y mae'n ofynnol iddo ymgymryd ag ef. Rydym o'r farn mai'r gallu i ymgynghoreion osod eu cyfundrefnau codi tâl eu hunain (yn amodol ar gytundeb gweinidogol) yw'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer sicrhau adennill costau llawn, gan gynnwys y gallu i adolygu ac, os oes angen, eu diweddarau'n flynyddol, gan gynnwys y gallu i godi tâl fesul awr. Bydd y prosiect seilwaith arwyddocaol a restrir yn y ddeddfwriaeth yn amrywio'n sylweddol o ran cymhlethdod ac felly bydd maint yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu cyngor hefyd yn amrywio'n sylweddol. Bydd caniatáu creu cynllun codi tâl, drwy bwerau a amlinellir mewn deddfwriaeth (fel y rhai a amlinellir yn adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) yn sicrhau y gellir adennill costau llawn.

Rydym hefyd yn nodi bod yr ymgynghoriad presennol ar ddiwygiadau gweithredol i'r broses gydsynio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amlygu'r bwriad i gefnogi ymgynghoreion statudol penodol, gan gynnwys CNC, i symud tuag at adennill costau llawn ar gyfer cyngor uniongyrchol ar brosiectau, ac ymgysylltu â nhw, mewn perthynas â'r drefn gydsynio hon. Mae'r cynigion presennol yn cynnwys galluogi ymgynghoreion statudol i osod cynlluniau codi tâl sy'n caniatáu iddynt adennill costau gweithgarwch statudol ac anstatudol, o ymgysylltu cynnar cyn ymgeisio hyd at weithgareddau ar ôl cael cydsyniad. Bydd pob ymgynghorai statudol yn gyfrifol am sefydlu ei gynllun codi tâl ei hun a gosod ei ffioedd ei hun o fewn y fframwaith deddfwriaethol. Mae'r dull hwn o

adennill costau yn gyffredinol yn well na phennu ffioedd o fewn rheoliadau gan ei fod yn caniatáu i ffioedd gael eu diweddaru'n fwy rheolaidd i adlewyrchu newidiadau i gostau gweithredu. Mae'r gallu i ddiweddaru ein ffioedd ein hunain yn rheolaidd (gan gynnwys y gallu i osod cyfradd fesul awr) hefyd yn fantais i'n gwasanaeth cyngor dewisol presennol. Felly, ein barn ni yw y dylid defnyddio dull tebyg o adennill costau ymgynghoreion statudol i'r drefn gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi is-ddeddfwriaeth i ddod â hyn i rym.

Bydd adran 126(4)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus, megis CNC, gyhoeddi adroddiad am ei gydymffurfedd ag unrhyw ofynion ymgynghori mewn perthynas â chais dilys am gydsyniad seilwaith fel y nodir mewn rheoliadau. Er y cydnabyddir y bydd manylion yr adroddiad ymgynghori statudol yn cael eu darparu drwy reoliadau, mae'n bwysig bod unrhyw ofynion o'r un natur a graddfa â'r rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer y drefn bresennol ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, sydd wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ofynion ychwanegol wedi cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r Bil drafft (gweler hefyd ein hymateb i gwestiwn 6).

## **Rhan 9 - Darpariaethau cyffredinol**

---

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r Bil.

### **Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, a sut mae'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?**

---

Mae potensial am ddryswch ynghylch y drefn newydd, yn enwedig yn yr ardal forol, lle mae graddau pwerau datganoledig yn y rhanbarth alltraeth neu ffin Cymru/Lloegr yn achosi'r potensial ar gyfer rhyngweithio rhwng fframweithiau deddfwriaethol lluosog.

Yn ogystal, gall fod yn heriol cydgysylltu rhwng awdurdodau yma, yn enwedig os bydd gwahaniaeth yn datblygu rhwng deddfwriaeth asesu amgylcheddol Cymru a Lloegr.

Fel y nodir o dan adran 2.viii) uchod, mae'n hanfodol bod rheoliadau dilynol yn galluogi adennill costau llawn fel rhan o'r broses o roi cydsyniad seilwaith. Dylid nodi hefyd, hyd yn oed os yw adennill costau llawn yn rhan o'r broses o roi cydsyniad seilwaith, ni fydd incwm yn y dyfodol mewn perthynas â phrosiectau seilwaith arwyddocaol o reidrwydd yn ddigonol i gynnal capasiti digonol o fewn ein timau, nac i adeiladu capasiti pellach yn ôl y galw, trwy gyflogi arbenigwyr ychwanegol sy'n ofynnol i roi cyngor ar brosiectau sy'n aml yn dechnegol

gymhleth gydag ystod eang o effeithiau amgylcheddol. Bydd angen cydbwysu cyllid cymorth grant yn briodol â mecanweithiau adennill costau i sicrhau bod adnoddau hyfforddedig priodol ar gael gan ymgylgoreion statudol fel CNC.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n hanfodol bod arweiniad a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses newydd o roi cydsyniad seilwaith er mwyn sicrhau bod ganddynt y lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth i alluogi iddi gael ei gweithredu'n llwyddiannus. Heb yr arweiniad a'r hyfforddiant hwn, mae risg na fydd y broses o roi cydsyniad seilwaith yn cyflawni prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru yn amserol, sy'n angenrheidiol i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy wrth inni symud tuag at allyriadau 'sero net' erbyn 2050.

Gallai'r angen i ran fawr iawn o'r gwaith gweithredu gael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth fod yn rhwystr. Mae'r Bil presennol dros gant o dudalennau o hyd. Mae setiau lluosog o is-ddeddfwriaeth yn nodi manylion pellach yn arwain at yr angen i ddatblygwyr a rhanddeiliaid eraill ddeall fframwaith cynyddol gymhleth er mwyn gwneud cais. Gall hyn lesteirio effaith symleiddio arfaethedig y broses arfaethedig.

### **Pa mor briodol yw y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?**

Er nad oes gennym unrhyw bryderon penodol ynghylch y pwerau yn y Bil drafft i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, hoffem dynnu sylw at yr anhawster wrth wneud sylwadau ar y Bil drafft pan fydd cymaint o'r manylion ar y broses a'r weithdrefn newydd ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith wedi'u gadael i is-ddeddfwriaeth. Gan mai dim ond egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn dirnad goblygiadau llawn y drefn newydd ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer ein harferion cydsynio ac ymgynghori statudol presennol, a'r effeithiau posibl ar draws ein sefydliad. Nid yw ychwaith yn bosibl cadarnhau graddau unrhyw faterion a fydd yn codi gyda'i gweithrediad yn y dyfodol. O'r herwydd, ni allwn roi sylwadau manwl ar dderbynioldeb y broses o roi cydsyniad seilwaith heb ragor o fanylion ynghylch sut yn union y byddai'r drefn arfaethedig yn gweithredu.

Deallir y bydd datganiadau o fwriad polisi i gefnogi'r Bil yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd toriad haf y Senedd, sy'n debygol o roi rhagor o fanylion am y broses o roi cydsyniad seilwaith. Byddem yn croesawu'r cyfle i adolygu gwybodaeth ychwanegol o'r fath a darparu sylwadau pellach yn ôl yr angen i lywio'r gwaith o graffu ar y Bil drafft. Yn yr un modd, edrychwn ymlaen at gyfrannu at baratoi is-

ddeddfwriaeth ac ymateb i ymgynghoriadau yn y dyfodol ar unrhyw reoliadau drafft.

## **A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?**

Ni allwn roi sylwadau ar hyd a lled y canlyniadau anfwriadol ar hyn o bryd, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r manylion ar brosesau a gweithdrefnau'r drefn newydd ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith yn cael eu neilltuo i is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ystyrir y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i farnu ar neu ddatgymhwyso caniatadau yn benodol, er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Mae CNC yn gyfrifol am lawer o wahanol gyfundrefnau rheoleiddio ar draws ystod eang o weithgareddau ac mae'n bosibl y bydd sefydlu cyfundrefn unedig newydd yn gymhleth. Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau manwl pellach fel rhan o unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol ar reoliadau cysylltiedig er mwyn helpu i sefydlu trefn sy'n addas at y diben ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl y bydd gwaith llai yn fwy costus ac yn cymryd mwy o amser i gydsynio - er enghraifft, dim ond trwydded forol a chydsyniad adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 sydd eu hangen ar brosiectau ynni alltraeth bach yn yr ardal forol ar hyn o bryd. Rydym o'r farn y gellir gwneud yr holl ystyriaethau cydsyniad adran 36 o fewn y gweithdrefnau trwyddedu morol safonol.

## **Beth yw eich safbwyntiau ar asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol?**

Nodwn fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (tudalen 58) yn nodi bod y sylfaen dystiolaeth wedi'i chasglu dros gyfnod eang o amser ac y gallai newid yn y dyfodol. Rydym yn cytuno efallai mai dyma'r data gorau sydd ar gael, ond bydd angen diweddarau'r ffigurau hyn pan ddaw manylion y drefn yn hysbys, ac ni ddylid dibynnu arnynt wrth ddatblygu strwythurau ffioedd cysylltiedig.

Nodwn ym methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw'r ffigurau a ddarparwyd ym mis Chwefror 2023 gan CNC, fel ymgynghorai i geisiadau morol, wedi'u cynnwys. Y rhesymeg a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am hyn yw bod CNC yn derbyn cyllid cymorth grant ac na fyddai'r ymateb sydd ei angen yn amrywio ar draws y gwahanol opsiynau a aseswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er nad ydym yn dadlau yn erbyn hyn, rydym am dynnu sylw at y ffaith bod y gost i CNC wrth gyflawni'r swyddogaeth hon yn sylweddol, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy cymhleth. Fel pwynt o eglurder, nad yw'n effeithio ar gasgliadau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y pedair enghraifft o gostau prosiect a ddarparwyd gennym i Lywodraeth Cymru oedd Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr, Parth Arddangos Llanw Morlais, Fferm Wynt ar y Môr Arnofiol Erebus

---

ac Ehangu Porthladd Caergybi. Ni wnaethom ddarparu ffigurau ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe.

Byddem yn disgwyl, mewn achosion lle bydd CNC yn ymateb fel ymgynghorai statudol ar gyfer datblygiad sy'n ystyried agweddau tebyg, megis trwydded forol a chaniatâd cynllunio, y gallai CNC o bosibl gael arbediad adnoddau (gan y bydd un set o ymatebion i ymgynghoriad yn ddigonol); fodd bynnag, mae CNC, yn rhinwedd ei swyddogaeth o ran trwyddedu morol, yn cael ffi fesul awr i bennu trwyddedau morol na fyddai'n dod i law mwyach.

Nodwn fod paragraff 8.132 yn nodi bod "cost yr Adroddiad ar yr Effaith Forol i CNC yn debygol o fod yn debyg i'r hyn sy'n ymwneud o gymryd rhan yn y broses o dan Opsiwn 1". Nodwn fod y gost yn Opsiwn 1 (ac eithrio meysydd sydd eisoes wedi'u hariannu gan gymorth grant) wedi'i rhestru fel £4,600 (Tabl D). Er ein bod yn cytuno nad yw'n bosibl darparu amcangyfrifon o gostau i CNC oherwydd y gofynion newydd, rydym yn rhagweld y byddai'n fwy na'r ffigur hwn. Yn ogystal, ni fydd CNC yn derbyn ffi ymgeisio mwyach. Bydd yn hollbwysig gosod strwythurau ffioedd priodol, gan gynnwys cost yr Adroddiad ar yr Effaith Forol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â chasgliad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai angen ymgynghori pellach i sefydlu swm priodol ac felly ni ellir ei gostio at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Nid yw'n ymddangos bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a ymgorfforwyd yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil drafft wedi ystyried y costau sefydlu/trosiannol ar gyfer ymgynghoreion statudol. Gallai hyn gynnwys addasiadau i systemau TG, darparu canllawiau gweithredol ar y broses newydd o roi cydsyniad seilwaith, a hyfforddiant i staff CNC. Gellir darparu amcangyfrifon cost ar gyfer costau sefydlu/trosiannol CNC os oes angen.

Yn ogystal, nid yw'n ymddangos bod barnu ar neu ddatgymhwyso cydsyniadau, ac eithrio trwydded forol, wedi'u hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Os caiff cydsyniadau eraill sy'n dod o fewn cyfundrefnau rheoleiddio CNC eu hychwanegu drwy reoliadau yn ddiweddarach, byddem yn disgwyl i'r goblygiadau ariannol gael eu hystyried mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth. Dylid nodi bod cyfran fawr o gyfundrefnau rheoleiddio CNC yn gweithredu ar sail adennill costau llawn, yn aml drwy gyfuniad o ffioedd ymgeisio a pharhau. Gall y ffioedd hyn amrywio yn dibynnu ar y drefn a'r math o gais. Pe na bai ceisiadau bellach yn cael eu gwneud, ni fyddai ffi gysylltiedig mwyach. Felly byddai angen ariannu'r costau i ddarparu cyngor technegol fel ymgynghorai statudol a swyddogaethau rheoleiddio cysylltiedig eraill drwy ddulliau eraill.

## **A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynglŷn â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef neu unrhyw faterion cysylltiedig?**

---

Dylid ystyried effaith y ddeddfwriaeth hon ar y cyd â deddfwriaeth arall y DU a Chymru sy'n cael ei drafftio gyda'r nod bwriadedig o 'symleiddio' cydsynio fel ei fod yn cael ei weld yn gyfannol. Mae cynigion eraill yn cynnwys darpariaethau yn Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain, Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, a'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Mae gan ryngweithio llawer o ddeddfwriaeth newydd y potensial i gynyddu cymhlethdod cydsynio yn sylweddol trwy greu systemau lluosog, gyda ffyrdd lluosog ychwanegol o gynnal asesiadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn yr ardal forol.



---

## Infrastructure 02 National Infrastructure Commission for Wales and the Future Generations Commissioner

---

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Bil Seilwaith (Cymru) | Infrastructure (Wales) Bill**

Ymateb gan Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Evidence from National Infrastructure Commission for Wales and the Future Generations Commissioner

---

Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee  
[SeneddClimate@senedd.wales](mailto:SeneddClimate@senedd.wales)

31st July 2023

Dear Chair

**Infrastructure (Wales) Bill – Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee Consultation**

Thank you for the opportunity to comment on the draft Infrastructure (Wales) Bill. We have taken the opportunity to compose a joint response that incorporates suggestions from the Office of the Future Generations Commissioner for Wales and the National Infrastructure Commission for Wales.

We believe that the main concept that underpins the rationale for the Bill is sound, namely the need to simplify and accelerate the project development process, whilst improving transparency and the ability of stakeholders and community organisations to scrutinise large infrastructure projects.

The additional benefits of a reduction in the cost of administering the planning process of infrastructure give rise to the opportunity to recycle those savings into the planning system. This opportunity should be grasped; our engagement with the planning sector leads us to understand that many components of the system are currently under-resourced. We would welcome further scrutiny by the committee on this issue.

With respect to aspects that we believe could improve understanding and communication around the Bill, we suggest that the Welsh Government could take the opportunity to describe their vision for infrastructure in the long term in line with the Well-being of Future Generations Act. Notwithstanding that many levers for change currently reside outside Welsh devolved competence, the Bill could explicitly reference the long-term requirements for Wales that depend upon robust, resilient and future-proofed infrastructure, helping emphasise that the legislation is embedded within the Well-being of Future Generations Act's Ways of Working and must aim to help achieve the national goals.

The Section 20 review undertaken by the Future Generations Commissioner for Wales in 2022 identified an implementation gap underpinned by a lack of capacity and understanding of how the Well-being of Future Generations should be appropriately applied in decision making. This has also emerged in the current programme of work to gather views on the priority work programme of the new Commissioner.

An example of this is the view that planning decisions are more heavily weighted towards economic well-being to the detriment of the other three dimensions of well-being under the

Act. We suggest, therefore, that the Bill is an opportunity to address this gap in implementation both on the face of the Bill and in secondary legislation. Involving the people affected by the decisions is also an important part of the Well-being Act and this should be made clear.

Involvement has emerged as one of the least applied ways of working. Involving people - beyond just consultations - in shaping their communities and places is a key aspect, through which the planning process can contribute to the Act. We would like to see the importance of involving people in planning highlighted and strengthened through the Bill and any accompanying statutory instruments.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Er bod rhai o'r materion hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fel y trefniadau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt gan Trafnidiaeth Cymru, cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut y caiff y costau hyn eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill i'r naill gyfeiriad neu'r llall, sy'n faterion gwerth am arian clir, credwn y dylid craffu ar y materion hyn ochr yn ochr â materion polisi ehangach y gall y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith edrych arnynt.

Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r hawl i graffu ar Drafnidiaeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus os yw'r Pwyllgor yn teimlo bod rhagor o faterion i'w datrys.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Isherwood', with a long horizontal flourish extending to the right.

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

James Price – Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru

19 Ebrill 2023

## Gwaith Trafnidiaeth Cymru i gaffael cerbydau rheilffyrdd

Annwyl James,

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cael gohebiaeth sy'n trafod y gwaith o gaffael/cyflenwi pum trên batri/disel hybrid 'Dosbarth 230', fel y deallwn, gan VivaRail, ac yn sgil penodi gweinyddwyr i'r cwmni. Mae'r ohebiaeth yn codi pryderon am effaith bosibl y datblygiadau hyn ar y cynlluniau ar gyfer rhoi'r trenau hyn ar waith, a'r oedi a gafwyd hyd yma. Er mwyn helpu â'n gwaith cychwynnol wrth i ni ystyried y materion a godwyd yn yr ohebiaeth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am y trefniadau. Yn fwy penodol:

- cadarnhad o nifer/manyleb y trenau a archebwyd ac a yw'r rhain wedi'u cyflenwi'n llawn (os na, cadarnhad o'r hyn sy'n weddill);
- a yw'r trenau wedi eu prynu'n llwyr neu'n cael eu prydlesu, a'r rhesymau am hynny y naill ffordd neu'r llall, a phryd ymrwymwyd i'r trefniadau cytundebol;
- pryd oedd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r trenau'n cael eu rhoi ar waith ac ar ba lwybrau, ynghyd ag unrhyw newid i'r safbwynt hwnnw y naill ffordd neu'r llall (ynghyd-destun patrymau o ran galw yn dilyn y pandemig);
- rhesymau pam nad yw'r trenau eisoes ar waith a'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer eu gwasanaethu/eu cynnal;
- cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut mae'r costau hyn wedi eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill y naill ffordd neu'r llall;
- asesiad Trafnidiaeth Cymru o effaith y ffaith bod VivaRail bellach yn nwylo'r gweinyddwyr neu ffactorau eraill ar y cynlluniau i gyflwyno'r trenau hyn a'r trefniadau cynnal a chadw parhaus.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ymateb erbyn 19 Mai 2023 os yw hynny'n bosibl. Os bydd unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, yn eich barn chi, ond y gellid ei rhannu â'r Pwyllgor yn gyfrinachol, yna gofynnaf i chi drafod ymhellach â'r tîm clericio ynglŷn â sut y dylid ymdrin â'ch ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Isherwood', with a long horizontal line extending to the right.

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Copi at:

Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Peter McDonald – Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru



Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

18 Mai 2023

Annwyl Mark

### **Caffael Cerbydau gan Trafnidiaeth Cymru**

Diolch am eich llythyr ynghylch caffael Trafnidiaeth Cymru (TrC) o'i drenau Class 230 i wasanaethu ar hyd rheilffordd Wrecsam-Bidston. Croesawaf y cyfle hwn i rannu rhagor o fanylion am y broses gaffael a'r sefyllfa fel y mae ar ôl i Vivarail fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod TrC wedi cynnal diwydrwydd dyladwy ac yn gweithio'n galed i gyflwyno'r trenau newydd hyn.


Gweler y manylion pellach y gofynnir amdanynt isod:

#### **1. Cadarnhad o nifer/manyleb y trenau a archebwyd ac a yw'r rhain wedi'u cyflenwi'n llawn (os nad, beth sy'n weddill).**

Yn 2018 fel rhan o'r dyfarniad contract gwreiddiol, archebwyd pum uned Class 230 3 cherbyd gan Vivarail dan yr ymrwymiad i wella gwasanaethau ar lwybr Wrecsam-Bidston. Cafodd y trenau eu nodi gan KeolisAmey<sup>1</sup> drwy broses ymgeisio masnachfrait rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, lle cawsant eu contractio wedyn drwy ddyfarnu'r cytundeb grant dilynol.

Mae'r Class 230 yn drên tri cherbyd. Newidiodd Vivarail y trenau hyn o drên 'District Line' Danddaearol Llundain i drên dau-fodd/hybrid prif lwybr sy'n defnyddio batris ac injan disel. Mae'r pum uned Class 230 3 cherbyd wedi'u cyflenwi, ac mae manylion amdanynt yn ymuno â'r gwasanaeth wedi'u cynnwys yn y cwestiwn.

<sup>1</sup>Roedd Keolis Amey Operations a oedd yn masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC) yn gwmni trenau yng Nghymru dan berchnogaeth Keolis (60%) ac Amey (40%) ac yn gweithredu masnachfrait rheilffyrdd Cymru a'r Gororau rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2021.



**2. A yw'r trenau wedi cael eu prynu'n llwyr neu'n cael eu prydlesu, y sail resymegol ategol yn y naill achos neu'r llall, a phryd y gwnaed y trefniadau contract.**

Prynodd Llywodraeth Cymru y trenau'n llwyr ac maent yn eiddo i TrC (mae TrC yn eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru). Cytunwyd ar y pryniant llwyr gan Lywodraeth Cymru adeg archebu, gan y byddai hyn wedi bod yn rhatach dros amser na Keolis Amey yn negodi cyllid trydydd parti a lesio'n ôl wedyn, gan nodi nad oedd Vivarail yn gallu cynnig trefniant les, dim ond gwerthu'r unedau'n llwyr. Ni fu unrhyw newidiadau dilynol i'r trefniant hwn, ac fel y byddech yn ei ddisgwyl o brosiect o'r natur hon, cynhaliwyd adolygiadau cyfnodol. Cafodd taliadau eu gwneud fesul uned drwy gydol 2020 a 2021 ar ôl i bob uned basio archwiliad ansawdd TrC a'r drefn brofi ofynnol.

**3. Pryd oedd Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r trenau'n dod i rym ac ar ba lwybrau, ynghyd ag unrhyw sefyllfa sydd wedi'i diweddarau mewn perthynas â hynny (yng nghyd-destun patrymau galw ar ôl y pandemig).**

Roedd y contract gwreiddiol yn nodi y byddai trenau Class 230 yn dechrau cael eu defnyddio yn 2019. O'r fflyd o bump, mae tri thrên wedi cael eu clirio ar gyfer hyfforddiant profi a hyfforddi gyrwyr, ac maent bellach ar gael i'w defnyddio, ac yn cael eu defnyddio i gludo teithwyr. Bydd y pedwerydd trên ar gael ar gyfer gwasanaeth i deithwyr ddechrau haf 2023, a disgwylir i'r pumed trên a'r olaf ymuno â'r gwasanaeth yn nes ymlaen yn yr haf / ddechrau'r hydref 2023.

Rydym yn disgwyl gweithredu gwasanaeth bob awr i'r ddau gyfeiriad rhwng Wrecsam a Bidston gan ddefnyddio trenau Class 230 yr haf hwn. Rhaid gweithredu un trên yr awr dibynadwy gan ddefnyddio'r trenau Class 230 yn llwyddiannus cyn i ni symud i gynyddu'r amllder hwn i ddau drên yr awr.

Cafodd yr unedau eu caffael yn benodol ar gyfer llwybr Wrecsam-Bidston fel fflyd hunangynhwysol gyda'r opsiwn o weithredu ar ychydig o lwybrau eraill dros dro tra oedd fflyd newydd yn cael ei darparu. Ni wireddwyd yr opsiwn hwn, ac o ganlyniad, dim ond ar lwybr Wrecsam-Bidston y mae gwaith seilwaith i ganiatáu gweithredu Class 230 wedi cael ei wneud.

**4. Rhesymau pam nad yw'r trenau wedi dechrau gweithredu'n barod a chynlluniau gwreiddiol ar gyfer sut byddent yn cael eu gwasanaethu/cynnal a chadw.**

Dyma'r rhesymau dros yr oedi cyn cyflwyno'r trenau Class 230 i'r gwasanaeth:

- Roedd amserlenni rhaglenni ymroddedig Vivarail yn afrealistig. Derbyniodd Vivarail y rhan fwyaf o'r bai am yr oedi, a chytunwyd ar iawndal penodedig sylweddol o £1.5 miliwn a'i dalu;



- oedi o ran cynhyrchu yn Vivarail oherwydd dechrau pandemig y coronafeirws (sef oedi wrth gael gafael ar ddeunyddiau) – roedd y rhain yn cael eu derbyn fel oedi a ganiateir;
- roedd cyfyngiadau'r coronafeirws a gofynion cadw pellter cymdeithasol hefyd yn arwain at oedi wrth hyfforddi gyrwyr yng ngoleuni'r angen i ffurfio 'swigod' criwiau trenau;
- dibynadwyedd cychwynnol gwael wedi oedi 'gweithredu di-wall' a derbyn yr unedau gan TrC. Arweiniodd hyn hefyd at ganslo hyfforddiant i yrwyr o bryd i'w gilydd;
- materion ansawdd yr oedd angen eu datrys cyn y gallai TrC dderbyn yr unedau, fel dau ddigwyddiad thermol ar wahân rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ebrill 2022 a olygai bod gwaith ar y fflyd yn cael ei ohirio tra bod y problemau yn cael eu deall a bod mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith. Dilynwyd hyn gan ddarn sylweddol o waith i ail-fapio'r meddalwedd rheoli injans, y batri a chywirow gwifrau;
- roedd gohirio'r gwaith ar y fflyd ddwy waith wedi golygu gohirio hyfforddiant gyrwyr, ond hefyd wedi golygu bod rhai gyrwyr wedi colli cymhwysedd a bod angen hyfforddiant gloywi ychwanegol arnynt;
- Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr ddiwedd 2022, bu oedi pellach tra sefydlodd TrC dîm cynnal a chadw mewnol.

Y cynlluniau gwreiddiol ar ôl prynu'r trenau oedd i Vivarail wneud gwaith cynnal a chadw ar y fflyd, er na chafodd cytundeb cynnal a chadw ei lofnodi erioed. Yn ystod y gwaith cynhyrchu a'r profion cychwynnol, daeth yn amlwg bod angen mwy o waith cynnal a chadw ar y trenau nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac na allai Vivaail fwrw ymlaen â'u prisiau arfaethedig. Roedd TrC yn trafod cytundeb cynnal a chadw diwygiedig gyda Vivarail ar yr adeg yr aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, cytunodd TrC i ddefnyddio depo Gogledd Birkenhead fel canolfan cynnal a chadw ar gyfer fflyd Class 230 ac roedd wedi contractio technegwyr Vivarail i gefnogi hyfforddiant gyrwyr ar sail ad-hoc. Ategwyd hyn gan dîm dan gontract TrC a oedd yn helpu technegwyr Vivarail yng Ngogledd Birkenhead.

Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr, cafodd tîm cynnal a chadw TrC (gyda recriwtiaid ychwanegol yn ymuno, gan gynnwys rhai cyn dechnegwyr Vivarail) eu cymeradwyo fel tîm cynnal y fflyd, gan ganiatáu i hyfforddiant gyrwyr ailddechrau cyn y gwasanaeth i deithwyr ym mis Ebrill 2023. Rydyn ni'n bwriadu parhau â'r tîm hwn dros y misoedd nesaf wrth i ni benderfynu ar yr opsiwn cynnal a chadw tymor hir gorau ar gyfer fflyd Class 230.



**5. Cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut mae'r costau hyn yn cael eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill yn y naill gyfeiriad neu'r llall.**

Mae cyfanswm y gwariant hyd yma yn £30.7m, mae hyn yn cynnwys £16.6m ar gyfer prynu'r unedau; mae £8.5m yn gostau cyfalaf er mwyn rhoi'r trenau ar waith; ac mae £5.7m yn gostau gweithredol. Mae dadansoddiad o'r costau hyn i'w weld isod.

Mae'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu unedau Class 230 a'u rhoi ar waith fel a ganlyn:

<b>Costau Capex</b>	<b>Gwariant hyd yma £k</b>
Cost unedau	16,575
Cyfalaf dros ben	2,482
Amrywiaethau	1,978
Diweddaru depo	950
Costau eraill	3,001
<b>Cyfanswm</b>	<b>24,985</b>

Y costau gweithredol cyn y gwasanaeth i deithwyr.

<b>Costau Opex</b>	<b>Gwariant hyd yma £k</b>
Iawndal Penodedig a Dalwyd i TrC	(1,473)
Cynnal a chadw Vivarail	2,496
Hyfforddiant	186
Cynnal a chadw dan gontract TrC	2,595
Deunyddiau a Chynnal a Chadw Trwm	29
Mynediad depo (Birkenhead)	1,365
Diogelwch/glanhau/offer	103
Arall	426
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,728</b>

Nid oes unrhyw ddyledion heb eu talu yn y naill gyfeiriad na'r llall. Roedd y taliad y cytunwyd arno gyda gweinyddwr Vivarail, a oedd yn cynnwys mynediad at swm sylweddol dros ben, yn cynnwys talu'r anfonebau sy'n ddyledus i Vivarail ar gyfer technegwyr cynnal a chadw, yn ogystal â'r iawndal penodedig sy'n ddyledus gan Vivarail am yr oedi i'r rhaglen.





**6. Aseiad TrC o effaith gweinyddiad VivaRail neu ffactorau eraill ar gynlluniau ar gyfer cyflwyno'r trenau hyn i'r gwasanaeth a threfniadau cynnal a chadw parhaus.**

Pan aeth Vivarail i ddwylo'r gweinyddwyr, roedd y Class 230 ddau i dri mis i ffwrdd o ymuno â'r gwasanaeth i deithwyr, yn amodol ar gytundeb cynnal a chadw boddhaol gyda Vivarail. Fodd bynnag, oherwydd cytundeb estynedig y drefn gynnal a chadw gyda Vivarail, roedd TrC eisoes wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau cadernid gweithrediad Class 230. Y rhain oedd:

- a. cynhyrchu cyfarwyddiadau cynnal a chadw TrC ei hun, gan nad oedd cyfarwyddiadau Vivarail yn cael eu hystyried yn ddigonol;
- b. datrys y ddau ddigwyddiad thermol, gan gynnwys profion helaeth ac archwiliadau technegol llawn o'r holl drenau Class 230 gan TrC;
- c. cael gafael ar gyfalaf mawr dros ben i gefnogi gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol, ni waeth pwy fydd yn gwneud hyn;
- d. sefydlu perthynas waith dda gyda staff technegol Vivarail ar lefel ymarferol, a hwylusodd y ffordd i TrC sicrhau cyn staff Vivarail yn gyflym pan aeth y busnes i ddwylo'r gweinyddwyr;
- e. penodi tîm TrC yn nepo Gogledd Birkenhead i gefnogi tîm Vivarail, a sefydlu storffeydd rhannau oddi ar y safle a lleoliad cynnal a chadw cydrannau cyfagos;
- f. Buddsoddi yn y cyfleusterau depo yn nepo Gogledd Birkenhead, gan gynnwys cyfleusterau tanwydd a gwagio tanciau toiledau. Mae defnyddio'r depo hwn hefyd yn golygu nad oes angen i drenau Class 230 deithio i Gaer mwyach ar gyfer cynnal a chadw a/neu wasanaethu, sy'n arbed costau ac adnoddau yn y pen draw.

Pan roddodd Vivarail y gorau i fasnachu, roedd y camau hyn yn ein galluogi i symud yn gyflym i benodi tîm cynnal a chadw 'mewnol' cyflawn, sicrhau darnau sbâr ac aildechrau hyfforddi gywyr i sicrhau bod teithwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth ar 3 Ebrill 2023, tua phedwar mis yn unig ar ôl i Vivarail roi'r gorau i fasnachu.

Ar ben hynny, mae trenau Class 230 wedi bod yn gweithredu'n ddibynadwy ar y cyfan ac mae'n ymddangos bod y problemau technegol mawr wedi cael eu datrys. O ganlyniad, mae TrC nawr mewn sefyllfa i barhau i weithredu'r trenau Class 230 am y dyfodol agos, gan ddarparu llwybr Wrecsam-Bidston gyda gwasanaeth o safon well nag a fu'n bosibl o'r blaen. Mae perthynas gadarnhaol wedi'i sefydlu gyda First Group, a brynodd yr asedau Vivarail sy'n weddill, gan ein galluogi i gryfhau ein sefyllfa ymhellach a ran dal cydrannau sbâr.



**TRAFNIDIAETH  
CYMRU  
TRANSPORT  
FOR WALES**

3 Llys Cadwyn  
Pontypridd,  
CF37 4TH,  
029 2167 3434  
James.price@trc.cymru  
[trc.cymru](http://trc.cymru)

3 Llys Cadwyn  
Pontypridd  
CF37 4TH  
029 2167 3434  
james.price@tfw.wales  
[tfw.wales](http://tfw.wales)

Hyderaf y bydd cynnwys yr ymateb hwn yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth i'r pwyllgor, a chroesawaf unrhyw gwestiynau eraill sydd gennych. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

James Price  
Prif Weithredwr / Chief Executive

Rebecca Evans AS,  
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

## Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Protocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.

## Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

*"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyrto oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

## Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi **ymgynghori** â'r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae'n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi'r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrllon ar faterion o'r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymadau a wnaethoch yn flaenrol i weithio'n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau'r gyllideb.

## Y camau nesaf

Rwy'n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd yn flaenrol ar y materion hyn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Mark Roberts,  
Chief Executive Officer,  
Environmental Standards Scotland

5 July 2023

Dear Mark,

**Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's consideration of interim environmental protection measures in Wales**

Thank you for attending the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's 21 June meeting to discuss the work of Environmental Standards Scotland ('ESS'). Your evidence provided valuable insight into the role of the ESS, how it operates in practice, and lessons learned to date. This will help inform our forthcoming report on Wales' interim environmental protection measures and stand us in good stead for our future work on a new Welsh environmental governance body.

The Welsh Government has set out its intention to publish a White Paper for an environmental governance Bill before the end of December 2023. The Bill will make provision for establishing a new environmental governance body, among other things. **We would be interested to know whether ESS has been invited to share its experiences with the Welsh Government to inform the development of the Bill.**

I anticipate the Committee will want to invite you to give evidence to inform our scrutiny of the Bill when the time comes. I hope you will be amenable to this.

Until then, we look forward to receiving a response from you.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llyr', is centered within a light yellow rectangular box.

Llyr Gruffydd MS,  
Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Dame Glenys Stacey, Chair, Office for  
Environmental Protection

Natalie Prosser, Chief Executive Officer, Office  
for Environmental Protection

5 July 2023

Dear Dame Glenys and Natalie,

**Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's consideration of interim environmental protection measures in Wales**

Thank you for attending the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee's 21 June meeting to discuss the work of the Office for Environmental Protection ('OEP'). Your evidence provided valuable insight into the role of the OEP, how it operates in practice, and lessons learned to date. This will help inform our forthcoming report on Wales' interim environmental protection measures and stand us in good stead for our future work on a new Welsh environmental governance body.

Given time constraints, the Committee could not cover all areas of interest with you. It would be helpful, therefore, if you could provide a written response to the questions below.

1. The OEP has jurisdiction in Wales in relation to environmental matters reserved to the UK Government. Can you provide examples of such matters?
2. Can you clarify whether you have considered any cases of failure to comply with reserved environmental matters?
3. How have you worked with (or how do you envisage working with) relevant regulators in Wales on these cases?



The Welsh Government has set out its intention to publish a White Paper for an environmental governance Bill before the end of December 2023. The Bill will make provision for establishing a new environmental governance body, among other things.

4. Has the OEP been invited to share its experiences with the Welsh Government to inform the development of the Bill?

Finally, we were interested to hear about the OEP's ongoing work on the respective roles, responsibilities and powers of Ofwat, the Environment Agency and the UK Government in relation to water companies. It would be helpful if you could share the output from your work with us at an appropriate time.

I anticipate the Committee will want to invite you to give evidence to inform our scrutiny of the Bill when the time comes. I hope you will be amenable to this.

Until then, we look forward to receiving a response from you.

Yours sincerely,



Llyr Gruffydd MS,  
Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mark Roberts**  
**Chief Executive**  
**Environmental Standards Scotland**  
Ìrean Àrainneachdail na h-Alba

**ENVIRONMENTAL**  
**Standards Scotland**  
Ìrean Àrainneachdail na h-Alba

mark.roberts@environmentalstandards.scot

Llyr Gruffydd MS  
Chair  
Climate Change, Environment and Infrastructure  
Committee  
[SeneddClimate@senedd.wales](mailto:SeneddClimate@senedd.wales)

---

7 July 2023

Dear Llyr,

Thank you for your letter of 5 July following the Committee's meeting on 21 June 2023.

To date, the Welsh Government has not been in contact with Environmental Standards Scotland with regard to the development of future environmental governance arrangements in Wales. We would, of course, be very happy to share our experiences.

Environmental Standards Scotland would be delighted to support the Committee in any way in its scrutiny of future legislation.

Yours sincerely,

*M. S. Roberts*

Mark Roberts  
Chief Executive  
Environmental Standards Scotland

**Environmental Standards Scotland Enquiries**

[enquiries@environmentalstandards.scot](mailto:enquiries@environmentalstandards.scot)

Thistle House, 91 Haymarket Terrace, Edinburgh, EH12 5HD

0808 1964000

Tudalen y pecyn 151



Office for  
Environmental  
Protection

Office for Environmental  
Protection  
County Hall  
Spetchley Road  
Worcester  
WR5 2NP

03300 416 581  
[www.theoep.org.uk](http://www.theoep.org.uk)

Llyr Gruffydd MS  
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

28 July 2023

By e-mail [SeneddClimate@senedd.wales](mailto:SeneddClimate@senedd.wales)

Dear Mr Gruffydd,

Thank you for the opportunity to appear before your committee on the 21 June. We were pleased to contribute to the important considerations of the committee and the Welsh Parliament in respect of interim environmental protection measures in Wales, and any long-term successor to them. We would be happy to give evidence to the committee in future, should we be able to assist.

I am writing to provide further information in respect of four matters you highlighted in your recent letter of 5 July.

**1. The OEP has jurisdiction in Wales in relation to environmental matters reserved to the UK Government. Can you provide examples of such matters?**

The devolution settlements for Scotland, Wales and Northern Ireland establish which matters are reserved and which are devolved. Generally, the environment is a devolved matter, but some environmental topics are reserved. By way of example, the Government of Wales Act 2006 (as amended) reserves to the UK Parliament the right to create laws in Wales concerning water and sewage, nuclear energy and energy conservation. There is no single, exhaustive list of reserved matters. We would consider whether a particular legal provision is a reserved matter on a case-by-case basis.

**2. Can you clarify whether you have considered any cases of failure to comply with reserved environmental matters?**

We have not yet considered any failure to comply with reserved environmental matters. We are undertaking a range of work to scrutinise the implementation of environmental laws which protect inland waters in England. Similarly, we are investigating the roles of the Secretary of State for the Environment, Food and Rural Affairs, Environment Agency and

Ofwat in the regulation of combined sewer overflows in England. We anticipate that the outcome of this work may be of relevance to the environment and environmental protection in Wales.

We are happy to provide further information on this investigation to you, as requested, as it progresses.

**3. How have you worked with (or how do you envisage working with) relevant regulators in Wales on these cases?**

Our investigations into potential failures to comply with environmental law remain ongoing and have not yet reached a stage that requires significant consultation. However, where we identify actions that are relevant to the Interim Environmental Protection Assessor for Wales (IEPAW), we will engage to ensure any implications or crossovers are fully understood. Where similar legislation is applied by regulators that span both England and Wales, we are mindful of the need to for a consistent approach and expect to work with those authorities and the IEPAW to ensure coherent application.

**4. Has the OEP been invited to share its experiences with the Welsh Government to inform the development of the Bill?**

We are in regular dialogue with Dr Llewellyn Jones in her role as Interim Environmental Protection Assessor for Wales and discuss a range of issues related to our ongoing work. Within these we have had some discussions with her, her secretariat and officials on our experience establishing and operating the OEP. We'd welcome further opportunity for our experience to benefit the development of arrangements for environmental governance in Wales.

I hope that provides the information that you have sought.

Kind regards,



Natalie Prosser  
Chief Executive  
The Office for Environmental Protection

M: 07887313628  
E: [natalie.prosser@theoep.org.uk](mailto:natalie.prosser@theoep.org.uk)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llŷr Gruffydd, AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Llŷr,

### Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - Adroddiad

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 i'ch hysbysu am y trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae hyn yn mynd i'r afael ag ymrwymiad a wnaed yn ystod hynt Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i gynnal adolygiad annibynnol. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd Eunomia Research and Consulting ym mis Mehefin 2022 i gynnal yr adolygiad annibynnol, gyda'r adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2023.

Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod Eunomia wedi cwblhau'r adolygiad a bod ei adroddiad wedi'i gyhoeddi heddiw ar wefan llyw.cymru. Roedd cwmpas yr adolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd LDT a'i rhoi ar waith. Yn benodol, nod yr adolygiad oedd ystyried effaith cyfraddau LDT ar ymddygiad yn y sector gwastraff ac i ba raddau y mae deddfwriaeth LDT wedi dylanwadu ar ymddygiadau.

Amgaeaf gopi o'r [adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol](#). Bydd y casgliadau a'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn llywio datblygiad LDT yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 154**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our ref

Heledd Fychan AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddTai@senedd.cymru

14 Gorffennaf 2023

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich gohebiaeth gan y Pwyllgor dyddiedig 14 Mehefin ynglŷn â gwasanaethau bysiau yng Nghymru

Gweler isod yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor yn eich gohebiaeth.

### Trefniadau cyllid hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol

- A allwch chi ddarparu dadansoddiad manwl o'r cyllid a fydd yn ffurfio'r £46 miliwn y gwnaethoch ei gyhoeddi?

*Fel mater o gwrs mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer y diwydiant bysiau drwy ein Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau gwerth £25 miliwn, y Cynllun Prisiau Siwrneiau Consesiynol Gorfodol gwerth £60 miliwn a Chynllun FyNgherdyn Teithio gwerth £2 miliwn. Mae £28 miliwn ychwanegol wedi cael ei ychwanegol ar ben y cyllidebau arferol yn benodol i gefnogi'r diwydiant bysiau wrth iddynt adfer o effeithiau'r pandemig. Oherwydd diffyg defnyddwyr, nid ydym yn disgwyl y bydd angen arnom yr holl £60 miliwn ar gyfer y Cynllun prisiau Siwrneiau Consesiynol Gorfodol, felly rydym wedi ailddyrrannu'r tanwariant a ragwelir o £18 miliwn i'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau. Bydd £4 miliwn o'r £46 miliwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ac i ddiogelu gwasanaethau TrawsCymru.*

- Sut bydd y £46 miliwn ychwanegol ar gyfer y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r trefniadau ar gyfer y cynllun olynol yn cael ei ddisbarthu ymhlith gwahanol wasanaethau?

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Timau Cynllunio Rhwydweithiau Rhanbarthol, a gweithredwyr, i gynllunio a chostio rhwydwaith o wasanaethau bysiau y gellir eu darparu pan fydd y cyllid brys yn dod i ben.*

*Mae dyraniadau cyllid dangosol wedi cael eu gwneud ar gyfer pob rhanbarth, yn seiliedig ar y cyllid sydd ei angen ym mhob ardal i gynnal y rhwydwaith craidd o wasanaethau.*

- Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer y gwaith hwn a'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal â chynrychiolwyr undebau llafur am yr effaith bosibl ar swyddi

*Bydd y Cynllun Brys presennol ar gyfer y Sector Bysiau yn dod i ben ar 24 Gorffennaf, a bydd y cynllun olynol, sef y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau, yn dechrau ar y 25ain. Mae'r amserlenni ar gyfer hyn yn heriol, ac rydym yn bwriadu bod wedi penderfynu ar y manylion terfynol ac wedi gwneud cytundeb ffurfiol gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol yn ystod yr wythnos nesaf.*

*Rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r undebau llafur ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y datblygiadau mewn perthynas â chyllid bysiau. Rwyf hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r undebau llafur ar gyfer trafodaethau helaeth am faterion sy'n effeithio ar eu haelodau. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cwrdd ag undebau llafur trafndiaeth yn rheolaidd.*

- Pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i bennu dyraniad y cyllid hwn?
- A allech ymhelaethu ar y broses ar gyfer penderfynu pa fysiau a fydd yn parhau i weithredu yng ngoleuni'r diffyg cyllid sydd wedi cael ei gydnabod?

*Mae gwybodaeth leol yn allweddol wrth benderfynu pa rwydwaith sydd orau ar gyfer unrhyw ran benodol o Gymru. Felly rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r gwasanaethau sydd eu angen a'r rhai maent am eu diogelu.*

*Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol yn gweithio ar eu cynlluniau yn annibynnol, am nad yw pobl yn byw eu bywydau o fewn ardal un awdurdod lleol – maent yn fwy tebygol o lawer o deithio o amgylch y rhanbarth. I'r perwyl hwn, rydym wedi sefydlu Timau Cynllunio Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Mae'r timau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Drafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i benderfynu pa lwybrau a gwasanaethau bysiau y dylid eu cadw gan ddefnyddio'r cyllid a roddir gan Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau Llywodraeth Cymru.*

*Mae'r timau rhanbarthol wedi canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau allweddol sy'n gwasanaethu ysbytai, gweithleoedd a chanolfannau addysg. Mae'r tîm hefyd yn canolbwyntio ar leihau dyblygu gwasanaethau. Ein blaenoriaeth fu cydbwysedd rhwng cwmipas daearyddol ac amllder gwasanaethau.*

*Mae'r timau rhanbarthol hyn bellach yn cydweithio'n dda, ac yn gweithio'n gyflym i orffen eu cynlluniau erbyn diwedd mis Gorffennaf, ac er nad yw'r fersiynau terfynol o'r cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau wedi cael eu llunio, mae'r arwyddion cyntaf yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd newidiadau i rai rhwydweithiau bysiau lleol ledled Cymru.*

*O fewn y cyd-destun hwn, mae cwmnïau bysiau'n gyfrifol am benderfynu pa newidiadau mae angen iddynt eu gwneud i wasanaethau bysiau masnachol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fasnachol hyfyw, ac mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfynu*

*pa lwybrau a weithredir yn lleol ar sail tendr y dylid eu cadw, eu dileu neu eu diwygio, yn seiliedig ar asesiad diweddar o batrymau teithio ar ôl COVID a chostau gwasanaethau / costau gweithredu.*

*Rydym wedi annog awdurdodau lleol i weithio gyda chymunedau lleol, yn enwedig os yw'n debygol y bydd y newidiadau i wasanaethau'n cael effaith sylweddol ar y cymunedau hyn.*

- A allech roi rhagor o fanylion am eich bwriadau ynghylch trefniadau ar gyfer cynllun olynol i'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ym mlwyddyn ariannol 2024/25 i roi sicrwydd na fydd y sefyllfa bresennol yn cael ei hailadrodd yn y flwyddyn ariannol nesaf?
- Beth yw'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer ariannu gwasanaethau bws yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25?

*Defnyddir y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau yn fecanwaith ychwanegol i gefnogi gwaith y timau rhanbarthol ac i helpu'r diwydiant i symud o gyllid brys i wasanaethau a weithredir yn lleol ar sail tendr o fis Ebrill 2024. Yn y cyfamser, mae fy swyddogion hefyd yn adolygu'r mecanweithiau presennol ar gyfer cyllid grant fel y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau a ffrydiau cyllid eraill i ddarparu pecyn cymorth mwy sefydlog ac effeithiol ar gyfer y dyfodol.*

*Bydd hyn yn gweithredu fel carreg sarn ar gyfer ein cynlluniau i fasnacheiddio'r rhwydwaith drwy ein Bil Diwygio Bysiau.*

- Mae cynrychiolwyr llywodraeth leol wedi awgrymu y gallai cael pris penodol yn hytrach na rhai tocynnau rhatach fod yn fanteisiol. A yw hyn yn rhywbeth yr ydych yn ei ystyried? A allwch roi rhagor o wybodaeth am unrhyw ddadansoddiad sydd wedi'i wneud ynghylch yr opsiwn hwn?

*Rydym wedi cynnal asesiad cynhwysfawr dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas ag amrediad o opsiynau eraill i wneud teithio ar fysiau'n fwy fforddiadwy a hygyrch ar gyfer trigolion Cymru ac ymwelwyr â Chymru nad ydynt yn gymwys i deithio ar fysiau am ddim o dan y Cynllun Prisiau Siwrneiau Consesiynol Gorfodol. Roedd yr opsiynau a gafodd eu hystyried yn cynnwys:*

- Cyflwyno pris siwrnai safonol wedi'i gapio yn debyg i'r cap £2 a gafodd ei dreialu yn Lloegr;
- gostyngiadau mwy hael ar gyfer pobl ifanc fel rhan o'r cynllun "Fy Ngherdyn Teithio" presennol ar gyfer pobl 16–21 oed, sydd ar hyn o bryd yn rhoi'r hawl i ddeiliaid cerdyn i gael gostyngiad o draean pris siwrnai ar gyfer oedolyn;
- gostyngiadau ar gyfer tocynnau bysiau a threnau; a
- tocynnau rhatach newydd y gellir eu defnyddio ar draws nifer o weithredwyr a pharthau.

*Ein blaenoriaeth bresennol ar gyfer cyllid yw sicrhau'r nifer uchaf o wasanaethau ag y bo modd, gan sicrhau nad yw llawer o wasanaethau'n cael eu canslo a sicrhau bod rhwydwaith bysiau ar waith y gall pobl ddibynnu arno.*

- Sut mae effaith ehangach darparu gwasanaethau bysiau'n cael ei hadlewyrchu ym mhroses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru? Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ystyried effaith gadarnhaol buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus ar feysydd polisi eraill, megis iechyd, ac a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhinweddau ailgyfeirio cyllid o bortffolios eraill yn y cyd-destun hwnnw?

*Rwy'n falch iawn o hanes y llywodraeth hon wrth gefnogi gwasanaethau bysiau yn ystod y pandemig ac yn ystod y cyfnod adfer wedyn. Rydym wedi gwneud dros £150 miliwn o gyllid*  
Tudalen y pecyn 157



*ychwanegol ar gael i'r diwydiant yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn wedi sicrhau bod gwasanaethau bysiau hanfodol wedi parhau i weithredu.*

*Wrth edrych ar weddill y flwyddyn hon, byddwn yn gallu diogelu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gyda'r cyllid a ddyrannwyd inni yn wreiddiol ar gyfer gwasanaethau bysiau.*

*Byddwn, wrth gwrs, yn adolygu'r sefyllfa yn ystod y cyfnod cyllideb nesaf i sicrhau bod y dyraniadau cyllid yn adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth hon.*

## **Cyllid gan Lywodraeth y DU**

- A allech roi rhagor o wybodaeth am y trafodaethau rydych wedi'u cael am y diffyg cyllid canlyniadol Barnett i Gymru yn dilyn cyhoeddiad buddsoddi Llywodraeth y DU?
- Beth yw camau nesaf Llywodraeth Cymru o ran y mater hwn?

*Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Drafnidiaeth y DU, ac rwy'n deall nad yw unrhyw "arian newydd" yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau. Felly nid oes unrhyw arian yn ddyladwy i Lywodraeth Cymru o dan Fformiwla Barnett.*

## **Cynigion i fasnachfreinio bysiau**

- Yn sgil brys y sefyllfa bresennol, a allwch nodi pryd y bydd Bil y Senedd ar fasnachfreinio bysiau yn cael ei gyflwyno?

*Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ar 27 Mehefin, cadarnhaodd y Prif Weinidog ein bod yn bwriadu cyflwyno Bil Seneddol ar ddiwygio bysiau yn nhrydedd flwyddyn y Senedd hon.*

- Beth yw'r broses arfaethedig ar gyfer trosglwyddo i fodel masnachfreinio bysiau, a sut byddwch yn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau yn ystod y cyfnod pontio hwn?
- Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer trosglwyddo i fodel masnachfreinio bysiau?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer y newid hwn?

*Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar gynlluniau pontio i leihau'r tarfu yn ystod y cyfnod trosglwyddo, ac i fynd ati mewn modd mor effeithiol â phosibl i fasnacheiddio gwasanaethau bysiau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o fanylion am y cynlluniau hyn ochr yn ochr â'r Bil. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i archwilio pa gynnydd y gellir ei wneud tuag at fasnacheiddio yn y cyfamser; er enghraifft, lle mae gwasanaethau'n cael eu contractio gan awdurdodau lleol, bod hyn yn cyd-fynd â gwaith cynllunio rhwydweithiau i leihau maint y newidiadau wrth symud i system fasnachfreinio.*

- O ystyried eich bwriad mai Llywodraeth Cymru fydd yr awdurdod masnachfreinio ac yn ysgwyddo'r risg referniw ar gyfer pob gwasanaeth bysiau o dan drefniadau masnachfrait ledled Cymru, a ydych chi'n gyswrtio sut y bydd y trefniant arfaethedig yn

sicrhau bod y risg hon yn cael ei rheoli ac nad yw'r heriau a'r ansicrwydd ariannol presennol yn cael eu hailadrodd a'u gwaethygu drwy fasnachfreinio?

*Rydym wedi gweld yn ystod pandemig COVID a'r tu hwnt mai'r pwrs cyhoeddus, yn y pen draw, sy'n ysgwyddo'r risg refeniw os ydym am i wasanaethau parhau. Mae masnachfreinio'n well yn cydnabod lle mae'r risg hon yn strwythurol, ac yn rhoi rhagor o reolaeth o lawer inni dros sut mae'r arian sydd ar gael gennym i fuddsoddi mewn bysiau'n cael ei wario, fel y gallwn reoli'r risg yn uniongyrchol. Nid yw hyn yn golygu bod pob her o ran cyllido'n cael ei datrys; mae angen o hyd inni ystyried amodau'r farchnad, costau cynyddol, setliadau cyllidebol a'r galw gan deithwyr, er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau y gallwn o fewn y cyllid sydd ar gael gennym. Fodd bynnag, mae masnachfreinio'n caniatáu inni wneud hynny er budd y cyhoedd, yn hytrach na gadael yr heriau hynny i'r diwydiant, gan roi gwasanaethau cyhoeddus mewn perygl.*

### **Cyllid rheilffyrdd**

- Sut bydd y cynnydd hwn mewn costau yn cael ei ariannu? Ym mhle yng nghyllideb Llywodraeth Cymru y bydd y cyllid i dalu am y diffyg hwn, a beth na fydd yn cael ei gyflawni o ganlyniad i hynny?

*Mae talu costau uwch Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn amlwg yn her i Lywodraeth Cymru, ond mae hon yn rhaglen hanfodol ar gyfer cyflawni llawer o'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer datgarboneiddio a gwella cysylltiadau ar gyfer ein cymunedau.*

*Yn y lle cyntaf byddwn yn ceisio rheoli'r costau uwch drwy ein prosesau rheoli arian arferol. Yn ogystal, mae Trafnidiaeth Cymru wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o gyllid ychwanegol gan yr UE drwy WEFO i helpu i dalu'r costau uwch.*

*Rydym yn gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i reoli a blaenoriaethu ein portffolio o fuddsoddiadau mewn seilwaith rheilffyrdd, gan chwilio am arbedion effeithlonrwydd pan fydd modd ac ystyried amseriad a phroffil y gwariant. Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall y gwersi yn dilyn y cynnydd mewn costau a welwyd gan Raglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, a bod y rhain yn cael eu cymhwysu i brosiectau seilwaith eraill sy'n cael eu cyflawni ar gyfer Llywodraeth Cymru.*

- Byddwch yn ymwybodol o adroddiadau blaenorol fod gennym bryderon parhaus am broses gyllidebu Trafnidiaeth Cymru, yn enwedig ei chymhlethdod a'i diffyg tryloywder. Gyda hyn mewn golwg, pam na chafodd y cynnydd mewn costau cyflawni ei nodi mewn pryd er mwyn cael ei ystyried yn ystod y broses o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

*Mae gwaith i ddiwygio cost derfynol ddisgwyliedig Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser. Mae nodi costau uwch o ganlyniad i gyfuniad o Brexit, y pandemig byd-eang a deunyddiau drutach yn golygu bod angen cynnal cryn waith ar yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, rydym wedi herio'n gadarn er mwyn lleihau'r cynnydd mewn costau cymaint ag y bo modd, gan gynnwys ystyried opsiynau cyflawni eraill, ailstrwythuro pecynnau contractau a chynnal gwaith ar sail fesul cam. Roedd y broses hon yn mynd rhagddi yn ystod proses y gyllideb ddrafft, felly, er bod costau'r rhaglen gyflawni'n cael eu hadolygu, nid oedd gwerth unrhyw amrywiant wedi cael ei gadarnhau ar yr adeg hwnnw.*

*Yn fwy cyffredinol, er mwyn sicrhau bod cyllideb Trafnidiaeth Cymru yn dryloyw ac yn adlewyrchu ei holl gyfrifoldebau a swyddogaethau (yn nawr ac yn y dyfodol), byddwn yn cynnal ymarfer cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft 24/25 i adolygu strwythur y gweithgareddau trafndiaeth o fewn Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n rhaglenni a'n blaenoriaethau.*

*I sicrhau bod y rhain ar gael i'r cyhoedd a hynny mewn da bryd, rydym yn gwneud gwaith i ddiweddarau Erthyglau Cymdeithasu a Fframwaith Rheoli Trafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi amserlen flynyddol ar gyfer gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i gynhyrchu a chyhoeddi llythyr cyllid Llywodraeth Cymru a chynllun busnes Trafnidiaeth Cymru; mae hyn yn cyd-fynd yn well â chyhoeddi cyllidebau Llywodraeth Cymru a phroses graffu'r Pwyllgor*

- Sut mae'r costau cynyddol ar gyfer moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd wedi dylanwadu ar ddsbarthu cyllid mewn perthynas â gwasanaethau bysiau?
- Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw gwasanaethau bysiau'n dioddef oherwydd y costau cynyddol sy'n codi o brosiectau rheilffyrdd?

*Nid yw costau uwch moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd wedi dylanwadu ar ddsbarthu cyllid mewn perthynas â gwasanaethau bysiau. Mae wedi bod yn bleser gennyf allu diogelu'r cyllidebau sy'n cefnogi ein gwasanaethau bysiau hanfodol. Mae hyn yn golygu nad ydym wedi defnyddio cyllidebau bysiau i roi cymorthdaliadau i wasanaethau rheilffordd, a bydd yr arian a ddyrannwyd ar gyfer cefnogi gwasanaethau bysiau'n cael ei wario ar wneud yn union hynny.*

## **Terfynau cyflymder 20mya**

- Pa waith modelu sydd wedi'i wneud i asesu effaith y polisi terfyn cyflymder 20mya diofyn ar y rhwydwaith bysiau?

*Gwnaeth Trafnidiaeth Cymru contractio City Swift (un o arweinwyr y byd ym maes modelu data ar gyfer bysiau), ar ran Llywodraeth Cymru, i fesur yr effaith ar wasanaethau bysiau pe bai terfynau cyflymder trefol yn cael eu gostwng i 20mya. Canfuwyd bod amseroedd aros diangen ar rai o'r llwybrau fel yr oeddent yn cael eu gweithredu, a phe bai llwybrau'n cael eu hoptimeiddio, byddai angen cerbyd ychwanegol i gadw'r gwasanaeth presennol fel y mae ar ddau o'r llwybrau a gafodd eu dadansoddi, ac ni nodwyd unrhyw newid ar y llall.*

- A oes hyblygrwydd gan awdurdodau lleol wrth benderfynu ar eithriadau i'r terfyn 20mya diofyn, i benderfynu y dylai prif lwybr allweddol fod yn eithriad o dan y polisi, os yw'n credu y byddai terfyn cyflymder o 20mya ar y llwybr yn cael effaith andwyol sylweddol ar y rhwydwaith bysiau, yn enwedig ar ei hyfywedd ariannol?

*Mae gan awdurdodau priffyrdd yr hyblygrwydd i bennu terfynau cyflymder lleol sy'n addas ar gyfer ffyrdd unigol, gan adlewyrchu angen ac ystyriaethau lleol. Pan fydd eu penderfyniad yn gwyro o'r canllawiau, dylai awdurdodau fod ag achos clir sy'n cynnwys rhesymau da. Nid yw ystyriaethau ariannol yn rhan o'r canllawiau, gan mai prif nod gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd cyfyngedig o 30mya i 20mya yw lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau, a fydd yn eu tro yn lleihau anafiadau a nifer y bobl sy'n cael eu lladd ar ffyrdd Cymru.*

- Sut bydd y newidiadau i gyllid gwasanaethau bysiau yn effeithio ar y cyllid ar gyfer darparu cludiant ysgol gan awdurdodau lleol?

